# Cyngor Cymuned Llandderfel.

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Rhagfyr 3ydd 2024 yn Neuadd Sarnau. Yn bresennol oedd Alwyn Jones (is-gadeirydd), Gwenda Evans, Bethan Thomas, Rita Jones, Eilir Rowlands, Eifion Davies, Gary Thomas, Maldwyn Jones a'r clerc.
Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Dewi Pritchard, Gwenda Evans, Gwenda Morris, Gwynedd Jones, Iolo Evans a'r Cyng. Elwyn Edwards.

**i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Tachwedd a chafwyd yn gywir.**

**ii) Datgan Buddiant.**
Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

**iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.**

a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.
i) Sbwriel ar ochr yr A494 o Fethel i Glanrafon ac ar yr A4212 rhwng Bala a Frongoch. Roedd peth o'r sbwriel wedi cael ei glirio ond gofynwyd i'r clerc ail gysylltu â Chyngor Gwynedd i'w atgoffa am y safleoedd eraill.
ii) Cais i ail leoli'r goleuadau traffig ym Methel a phryder fod darn arall o'r ffordd yn gwanhau. Cafwyd ymateb gan yr Asiantaeth Cefnffyrdd yn egluro fod y goleuadau traffig wedi'u gosod yn ofalus i gydymffurfio a'r safonau cyfredol. Roeddynt hefyd yn ymwybodol ac yn monitro cyflwr y ffordd.
iii) Pryder am gyflwr tô Eglwys Llanfor – cafwyd cadarnhad gan y perchnogion fod cynlluniau i'w drwsio yn fuan ac yn y cyfamser byddant yn gosod arwyddion i rybuddio'r cyhoedd.

b) Lloches bws newydd i Lanfor.
Roedd y clerc wedi ymweld â'r pentref i gyfarfod a'r trigolion a oedd gyda phryderon am ddiogelwch y rhai oedd yn gorfod croesi'r A494 i ddal y bws. Roedd y clerc am barhau i drafod gyda'r asiantaethau perthnasol.

**iv) Gohebiaeth.**
Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

iv) Gohebiaeth
a) Cyngor Gwynedd.
i) Arolwg Cymuned.
ii) Penderfyniad Pwyllgor Craffu Cymunedau – Cynllunio a Chymunedau Cymraeg.

b) Un Llais Cymru
i) Taflen '10 Peth Pwysig i'w Gwneud'.
ii) Canllawiau Digidol.

c) Amrywiol.
i) Trafnidiaeth Cymru – digwyddiadau ymgysylltu am y gwasanaeth T3/T3C. Cadarnhaodd y clerc ei bod wedi mynychu'r digwyddiad galw fewn yn Y Bala ac wedi pwysleisio nad oedd y gwasanaeth presennol yn gwasanaethu'r gymuned yn effeithiol.
ii) Traffic Cymru – Hysbysiad o waith ar yr A494 Hengwm ym mis Tachwedd.
iii) Arolwg Cymunedol Partneriaeth Polisi ac Arloesi Lleol.
iv) Neges gan Liz Saville Roberts AS i egluro cyfrifoldebau'r aelodau etholedig, cyflwyniad o'i gwaith diweddar a chais am gymorth gyda materion cysylltedd.
v) Heddlu Gogledd Cymru – Dweud eich dweud ar gyllid plismona.


Arwyddwyd: …………………………………………. Dyddiad: …………………………………..

**v) Ceisiadau Cynllunio.**

a) Derbyniwyd y cais cynllunio canlynol:-
C24/0868/04/LL – Codi estyniad i adeilad amaethyddol er mwyn darparu tô dros fuarth a thomen dail. Tyn y Fron, Glanrafon.

Nid oedd y cynghorwyr yn ymwybodol o unrhyw wrthwynebiad lleol i'r cais.

**vi) Materion Ariannol.**

a) Llywodraeth Cymru.
i) Swm priodol o dan adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 – terfyn gwariant adran 137 ar gyfer 2025-26.

b) Archwilio Cymru – Cwblhau archwiliad 2023-24
Derbyniwyd yr Adroddiad yn nol gan yr archwilwyr allanol gyda'r cadarnhad ei fod yn gywir a bod dim materion yn achosi pryder iddynt. Er hyny, tynnwyd sylw'r Cyngor i un anfoneb lle nad oedd y rhif TAW cyflawn wedi ei gyflwyno arno a chynghorwyd i gael y rhif cywir gan y cyflenwr. Cytunwyd i'w gymeradwyo. Cafwyd cadarnhad gan y Clerc ei bod wedi arddangos y 'Rhybudd o ddiwedd yr archwiliad' yn y mannau perthnasol.

c) Adolygu cyflog a chostau'r clerc.
Cytunwyd i dderbyn argymellion Un Llais Cymru ynglŷn â'r nifer o oriau gwaith (4 awr yr wythnos) a'r gyfradd gyflog (£17.29 yr awr) i'r clerc a'i mabwysiadu o fis Ebrill 2025 ymlaen.

ch) Cyllideb a Praesept 2025/26.
i) Gwaith torri glaswellt y mynwentydd – yn dilyn y gwaith clirio ym mynwent Llanfor cafwyd cais gan y contractwr i ychwanegu toriad ychwanegol i'r cytundeb presennol er mwyn ei gadw'n daclus. Cymeradwywyd hyn ar gyfer y flwyddyn 2025-26.
ii) Fel y trafodwyd yn flaenorol cytunwyd i ddefnyddio peth o'r arian tu cefn ar gyfer torri'r coed ym mynwent Frongoch gan fod eu cyflwr yn dirywio. Gofynnwyd i'r clerc ofyn i'r contractwr gyfarfod gyda'r cynghorwyr i drafod y gwaith.
iii) Cytunwyd i ychwanegu arian ar gyfer cyflenwi nwyddau i'r difibs a chynyddu'r arian ar gyfer yr yswiriant, gwefan, cyflog y clerc, tal aelodaeth Un Llais Cymru a'r gost o dorri glaswellt y mynwentydd. Cytunwyd i leihau'r gwariant ar gyfer costau banc, ffioedd archwilio (cynyddwyd llynedd ar gyfer yr archwiliad llawn eleni) a chynnal a chadw asedau. Amcangyfrif y bydd £950 o ad-daliad TAW a £75 o logau banc.
iv) Gyda'r costau ychwanegol a drafodwyd uchod cytunwyd i godi'r Praesept i £15,000 ar gyfer 2025-26. Byddai hyn yn sicrhau fod digon o arian ar gael ar gyfer unrhyw wariant hanfodol, i gefnogi prosiectau lleol ac fel bod dros 3 mis o wariant gros y cyngor tu cefn.

d) Taliadau.
Cytunwyd i dalu –
i) Cyflog a chostau'r clerc (Hyd-Rhag)
ii) TWE
iii) Hannah Gwenllian Web Designs (Gwefan)
iv) ICO
v) Neuadd Bro Derfel – ad-daliad cost y padiau i'r difib
vi) DH Jones (heirio dumper bach)

dd) Cyfraniadau Ariannol.
Derbyniwyd ceisiadau gan yr Urdd – Apêl Cronfa Cyfle i Bawb, St John Ambulance Cymru ac Ambiwlans Awyr Cymru. Cytunwyd i ddilyn y drefn arferol a'u trafod yn ein cyfarfod ym mis Mawrth.



Arwyddwyd: …………………………………………. Dyddiad: …………………………………..

**vii) Materion lleol.**

a) Cytunwyd i anfon y cwynion i’r adrannau perthnasol.
i) Coeden yn pwyso dros yr B4401, ger Dewis Cyfarfod, Llandderfel.
ii) Tyllau yn yr B4401 rhwng cyffordd Bala a Llandderfel.
iii) Ffosydd/gwteri angen eu glanhau rhwng Ysgol Ffridd y Llyn a phentref Llandderfel. Yn bennaf ochr Cefnddwysarn gan fod y dŵr yn llifo lawr tuag at yr ysgol.
iv) Pryder nad oedd y lori graeanu yn parhau i fynd fyny am Ysgol Ffridd y Llyn i sicrhau fod yr athrawon a rhieni yn gallu cael mynediad i'r ysgol. Gofynnwyd i’r clerc atgoffa’r Adran Priffyrdd o’r angen i wneud hyn.
v) Trafodwyd cwyn un o’r trigolion lleol fod cerddoriaeth Saesneg yn cael ei chwarae yn yr ystafell aros yn y Ganolfan Iechyd ac yn rhai o fusnesau’r dre.

# Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Mawrth 4ydd am 7.30 y.h. yn Neuadd Sarnau.



Arwyddwyd: …………………………………………. Dyddiad: …………………………………..